

**CYNGOR CYMUNED YSTRAD FFLUR
COFNODION Y CYFARFOD MISOL
18.05.2023 YN DILYN Y CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL
LLYFRGELL NEUADD PANTYFEDWEN, PONTRHYDFENDIGAID**

TRAFODAETH PARTHED DATBLYGIAD PARC TEIFI

Croesawodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Angharad Jones Christine Major (CM), Cyfarwyddwr Masnachol, The Original Travel House LTD, i'r cyfarfod i drafod cynlluniau ar gyfer Datblygiad Parc Teifi yn y dyfodol. Mae Parc Teifi yn cynnwys clwstwr o 10 bwthyn gwyliau ym mhentref Pontrhydfendigaid. Caiff ei farchnata drwy'r Tŷ Teithio Gwreiddiol Cyf (The Original Travel House) , busnes teuluol yn Abertawe gyda 15 cangen ledled De Cymru.

Gallai fod newid defnydd ar gyfer y datblygiad hwn o "Lety Gwyliau" i statws arall. Eglurodd CM fod y bythynnod yn brysur yn ystod yr haf i gynnwys llwyfannu Eisteddfod Genedlaethol 2022 yn Nhregaron ond ar adegau pellach roedd archebion yn her. Hysbysebwyd y bythynnod ar y cyfryngau cymdeithasol a Bont Fb. Darparwyd grantiau'r llywodraeth yn ystod Pandemig Covid-19 ond roedd y safle yn rhedeg ar golled. Roedd yr incwm 2022 oddeutu £80,000, heb fod wedi talu costau.

Cynlluniau posib ar gyfer Parc Teifi yn y dyfodol:

1. Gellid gwneud Cais Cynllunio i'r Awdurdod Lleol yn gofyn am newid defnydd ar gyfer y bythynnod e.e. o "lety gwyliau" i "breswyl". Yna gellid eu gwerthu fel eiddo preswyl.

2. Lloches i Ferched

3. Dros 55 oed – byw â chymorth

Gofynnwyd a fyddai pobl sy'n byw yn y cartrefi hyn llawn amser p'un a fyddant yn prynu ar y farchnad agored, defnyddiwr canolfan loches neu'n byw â chymorth yn cyfrannu at fywyd a diwylliant y Pentref.

4. Roedd grym angen am dai fforddiadwy, yn enwedig i Bobl Ifainc, a oedd ar hyn o bryd yn cael eu prisio allan o'r farchnad gan brynwyr eraill a llawer ohonynt yn gadael yr ardal.

Yn ôl Cyngor Sir Ceredigion, nid oedd Parc Teifi yn addas ar gyfer tai fforddiadwy gan nad oedd wedi'i leoli mewn tref a llawer o gyfleusterau heb fod ar gael ee roedd un dafarn wedi cau ac un arall yn cynnig gwasanaethau cyfyngedig.

Ystyriodd y Cyngor Cymuned tai fforddiadwy i bobl leol fel yr opsiwn gorau ar gyfer Parc Teifi.

Gofynnwyd y cwestiwn i'r Cyngor Cymuned

A yw'r Cyngor Cymuned yn cefnogi'r cais am newid defnydd?

Ateb: Nacydy.

Trafodir y sefyllfa'n yn Siambr Cyngor Sir Ceredigion ond

pe bai'r newid defnydd o *lety gwyliau* i *breswyl* yn digwydd, dymunai'r Cyngor Cymuned ofyn i GS Ceredigion ymchwilio i gyfreithlondeb gwerthu i'r farchnad leol yn unig h.y. i gynnwys cymal y gallai'r gwerthwr ond gwerthu i bobl leol.

Yn ogystal, roedd y Cyngor Cymuned ond o blaid tai fforddiadwy ac nid tai cymdeithasol.

Bydd y Cynghorydd Sirol Ifan Lloyd Davies yn cyfleu safiad y Cyngor Cymuned i G S. Ceredigion.

1. CROESO'R CADEIRYDD A MATERION PERSONOL

Croesawodd y Cadeirydd y Gyngh. Angharad Jones, bawb i'r Cyfarfod.

2. YN BRESENNOL

Cyng. Mel Brian
Cyng Ieuan Davies
Cyng Alun Price Jones
Cyng. Angharad Jones
Cungh. Non Jones
Cyng Richard Jones
Cyng Gareth Owen
Cyng. Sirol Ifan Lloyd Davies
Eleri Thomas (Clerc)
Gareth Wyn Edwards
Christine Major Cyfarwyddwr Masnachol Original Travel House Cyf (ar gyfer
Trafodaeth Parc Teifi yn unig)

3. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ymddiheurodd y Cyng. Ieuan Davies a Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (SCCyRH) John Evans am eu hanallu i fynychu'r Cyfarfod.

4. MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU

Adroddodd SCCH John Evans y materion canlynol, a godwyd yn ystod y mis diwethaf:

Ymddygiad Gwrthgymdeithasol /Aflonyddwch: 0

*Bwrgleriaeth : 0

*Difrod Troseddol : 1

Peth amser dros y penwythnos 6-05-23 i 8-05-23 achoswyd difrod i fan gwaith Vauxhall Vivaro a barciwyd ar Heol y Bannau, Bont. Ceisiodd y troseddwyd dorri mewn i'r fan gan wneud twll yn y cefn. Nid oedd y perchennog o'r farn bod unrhyw eitemau wedi'u dwyn.

*Dwyn : 1

Rhywbryd rhwng 2100 awr dydd Sul, 7-05-23 a 1500 o'r gloch Dydd Llun, 8-05-23 dygwyd trawsnewidydd catalytig Mazda MX 5 a barciwyd y tu allan i dŷ ar Heol y Bannau, Bont.

*Trais/ Ymosodiad : 0

*Galwadau twyll/ sgam

Yn ystod mis Mai, 2023 bu cynnydd mewn galwadau ffôn i drigolion Ceredigion gan bobl yn honni eu bod yn cynrychioli'r Heddlu Metropolitaidd. Roedd y person ffug swyddog heddlu wedi hysbysu'r dioddefwr (person yn cymryd yr alwad) bod ganddo berson a enwir yn y ddalfa wedi'i arestio am dwyll peiriant arian-parod. Roedd y person a arestiwyd yn meddu ar fanylion personol dioddefwyr ac roedd y swyddog heddlu ffug am gadarnhau'r manylion hyn.

Bwriad y sgam oedd derbyn manylion cyfrif banc dioddefwyr a manylion cardiau banc neu hysbysu'r dioddefwr y byddai trefniadau'n cael eu gwneud i gasglu'r cerdyn banc (Twyll Negesydd - Courier Fraud)

**Cyn belled roedd tri adroddiad o'r fath wedi eu hadrodd at sylw Heddlu Dyfed Powys gan drigolion ardal Heddlu Tregaron- Doedd dim colled ariannol wedi digwydd.

Roedd aelodau'r Tîm Troseddau Economaidd HDP wedi siarad â'r dioddefwyr ac wedi darparu cyngor ac ymweliadau Dîm Plismona Cymdogaeth wedi dilyn hyn. Adroddwyd y digwyddiadau at sylw Gweithredu Ar Dwyll (Action Fraud),

5. DATGAN BUDDIANT PERSONOL A BUDDIANT SY’N RHAGFARNU

Dim wedi’i ddatgan.

6. CADARNHAU COFNODION CYFARFOD 20fed Ebrill 2023

CYNIGIUYD (Y Cyngh. Richard Jones), **EILIUYD** (Y Cyngh. Mel Briant) a

PHENDERFYNWYD bod Cofnodion Cyfarfod yr 20fed Ebrill yn gywir.

Arwyddwyd gan y Cadeirydd.

7. MATERION YN CODI

7.1 Ardal Chwarae Pantyfedwen: Cynhaliwyd Cyfarfod Safle ar ddydd Mawrth 4 Ebrill am 10.30am dan gyfarwyddyd Stefano Antoniazzi (SA), Cyngor Sir Ceredigion, y Cyng Gareth Owen a Mrs Clare Hughes. Roedd angen matiau newydd. Bydd angen cyllid cyfatebol wrth geisio am grant yn ôl SA. Gallai grantiau fod ar gael i gwrdd â'r arian cyfatebol ee am grant o £10,000, gallai arian cyfatebol o £10,000 gael ei dalu gan grant arall. SA i geisio gwybodaeth pellach.

Gellir o bosibl ffynhonellu grant dan law'r Loteri Genedlaethol:

Arolygiad Chwarae ROSPA 2023: cynhelir ym mis Mehefin £75 + TAW.

Yr arwydd parthed gwybodaeth i dwristiaid: i'w lleoli ar safle'r Neuadd yn ystod y dyfodol agos. Y Cyngh. Elgan Williams i ymwneud â'r dasg.

7.2 Grant y Loteri Genedlaethol: clustnodir sylw pellach i amodau'r grant i gwrdd â prosiectiau penodol o fewn y Pentref.

7.3 Diffibriliwr ger Tafarn y Teifi, Ffair Rhos

Cyfanswm y diffibrilwyr o fewn Ffair Rhos a Bont yw 4.

Megis: Tafarn y Teifi: Ffair Rhos (Y Cyngor Cymuned wedi darparu bocs)

Neuadd Pantyfedwen, Y Bont

Siop y Bentref, Bont

Abaty Ystrad Fflur (Y Cyngor Cymuned wedi darparu bocs)

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â diffibriliwr pellach, y gellir ei leoli'n yr ardal.

Cytunwyd gofyn i Bennaeth Ysgol Bont, a ellid gosod y diffibriliwr ar safle'r ysgol, y maes parcio o bosib. Cadeirydd Angharad Jones i ofyn i Joyce.

7.4 Prif Bont y Pentref: Adroddwyd bod y goleuadau'n aml heb fod yn gweithio a bod tagfeydd traffig ar bob ochr i'r goleuadau.

7.5 Baneri ar gyfer Ffair Rhos: Cyngh. Ieuan Davies i'w prynu. .

7.6 Adroddiadau'r Is-Bwyllgorau

7.6.1 Pwyllgor y Neuadd : Adroddwyd bod y Cyngor Cymuned yn talu'r gost

Archwiliad blynyddol Neuadd Pantyfedwen yn rhinwedd ei swyddogaeth o

Ymddiriedolwr Ceidwadol y Neuadd.

7.7 Dwy sedd wag achlysurol Cyngor Cymuned Ystrad Fflur: Ward Gwnnws Uchaf: hysbyswyd Cyngor Sir Ceredigion o'r lleoedd gwag. Arddangoswyd Hysbysiad Cyhoeddus yn yr ardal yn gwahodd unrhyw ddeg etholwr yn ardal etholiadol Cyngor Cymuned Ystrad Fflur (Ward Gwnnws Uchaf) i ofyn am etholiad i lenwi'r 2 sedd wag drwy hysbysiad yn ysgrifenedig wedi ei gyfeirio i'r Swyddog Canlyniadau, Neuadd

Cyngor Ceredigion Penmorfa, Aberaeron erbyn yr 29.04.2023. Nid oedd unrhyw geisiadau am etholiad. Gall Cyngor Cymuned Ystrad Fflur bellach gyfethol 2 aelod. Bydd "Rhybudd Cyfethol" yn cael ei arddangos yn lleol gan wahodd datganiadau o ddiddordeb erbyn 15.06.2023.

- 7.8 Casgliad Sbwriel Blynnyddol Cyngor Cymuned Ystrad Fflur:** Dydd Iau 27.04.2023 @ 6pm ger Neuadd Pantyfedwen. Cytunwyd diolch i bawb i gynnwys Ceinwen Goodwin, Clare Hughes, Lisa Owen a Catrin Williams am gasglu sbwriel o fewn y gymdogaeth (drwy Facebook).
- 7.9 Llifogydd Afon Teifi yn ardal y Llew Coch:** Yn disgwyl i lefel yr afon i ddisgyn cyn cychwyn ar waith adferol.

8. GOHEBIAETH

- 8.1 Ymgynghoriad Safle Ysbyty Newydd: GIG Cymru: Datblygu Ysbyty Gofal Brys a Gofal wedi'i Gynllunio newydd yn ne ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.** Cyfnod 12 wythnos o ymgynghori'n wedi'i lansio ar y 23.02.2023 i benderfynu pa safle y dylid lleoli'r ysbyty newydd: **Safleoedd Arfaethedig:** dau safle ger yr Hendy- Gwyn ar Daf ac un ger Sancler. Dyddiadau ychwanegol cyfarfodydd i geisio barn staff ac aelodau'r cyhoedd.

Gwybodaeth pellach: www.hduhb.nhs.wales/new-hospital-site

- 8.2 Arolwg o'r Trefniadau Cymunedol ar gyfer Ceredigion:** Mae'r Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn mynd i gynnal arolwg o'r trefniadau cymunedol ar gyfer Ceredigion gyda'r bwriad o ystyried a llunio cynigion ar gyfer trefniadau yn y dyfodol.
Gwahoddir sylwadau : mae'r cyfnod ymgynghori 8 wythnos yn dechrau ar 9 Mai 2023 ac yn cau ar 3 Gorffennaf 2023.

- 8.3 Diwrnod Agored: Coed y Bont:** 16.06.2024 10am-7pm yn Neuadd Bentref Pantyfedwen. Gwahoddiad i bob Cynghorydd Cymunedol.

8.4 Strategaeth Tai Lleol Ceredigion

Mae Strategaeth Tai Lleol Ceredigion wedi cael ei adolygu yn ystod y misoedd diwethaf. O ganlyniad i'r gwaith hwnnw, mae'r Strategaeth Tai arfaethedig bellach wedi bod trwy'r broses fewnol ac mae Cyngor Sir Ceredigion mewn sefyllfa i'w rhannu fel rhan o'r Ymgynghoriad Cyhoeddus.

Unrhyw sylwadau ar y Strategaeth Tai, i'w derbyn erbyn dydd Gwener 30 Mehefin 2023: dweudeichdweud.ceredigion.gov.uk/strategaeth-tai

Ymholiadau pellach, cysylltwch â Chyngor Sir Ceredigion trwy e-bost - localhousingstrategy@ceredigion.gov.uk

- 8.5 Mynyddoedd Cambrian:** manylion yn ymwneud â digwyddiad lleol yn Ystrad Fflur ar Ddydd Llun 22ain o Fai rhwng 10am a 5pm. Mae'n ddigwyddiad unigryw sy'n cyfuno hanes lleol, taith gerdded a pherfformiadau gwerinol.

Mae Arfon Hughes yn angerddol am y rhan yma o Gymru a fel mae Owen Shiers, yn tynnu ysbrydiolaeth o'r tirwedd hynafol. info@strataflorida.org.uk

8.6 Bwrdd Rhanddeiliaid Cylch Caron

Yn amgau copi o'r cyflwyniad a roddwyd yng nghyfarfod diweddar Bwrdd Rhanddeiliaid Cylch Caron.

8.7 **Pwyllgor Ardal Ceredigion:** Un Llais Cymru 18.04.2023: Cofnodion. Cyfarfod nesaf: Nos Fawrth 4 Gorffennaf 2023 am 7pm Neuadd Goffa Cei Newydd.

8.8 **Diwrnod Treftadaeth Mynyddoedd Cambria:** 27.05.2023, Canolfan Cymunedol, Mynach. Pontarfynach.

8.9 **Gohebieth Pellach:** er gwybodaeth yn unig.

9. CYNLLUNIO

9.1 Cais Cynllunio: A230274

Ymgeisydd: Hutchison 3G DU Cyf

Lleoliad: Coedwig De Tywi, Ystrad Fflur, Tregaron, Ceredigion, SY25 6NW.

Y Bwriad: Gosod telathrebu arfaethedig: Tŵr dellt dur arfaethedig 30m Uchel c/w Delta Headframe ar sylfaen goncrid RC newydd a gwaith ategol cysylltiedig.

Sylwadau'r Cyngor Cymuned: Dim Gwrthwynebiad.

10. Cyllid

10.1 **Polisi Zurich Tref a Chymuned:** £555.33; Dyddiad Adnewyddu: 1 Mehefin 2023.

10.2 **Cyflog y Clerc Ebrill 2023** £193.83

10.3 **Cyngor Sir Ceredigion: Praesept mewn rhan** £2,404.34 llai costau Etholiad
Cyngorau Thref a Chymuned 2022 £170 = £2,234.34

11. Eitemau ar gyfer Facebook

11.1 **Diolch i unigolion** a helpodd i gasglu sbwriel o gwmpas y pentref yn ddiweddar.

11.2 **Rhybudd Cyfethol.**

12. UNRHYW FATER ARALL

12.1 **Roedd troswr gwartheg** a chloch stabl wedi eu dwyn o eiddo yn Ffair Rhos. Roedd y lladron wedi torri i mewn i'r iard trwy ddifrodi'r giât fynedfa.

12.2 **Adroddwyd nad** oedd bar yn y Llew Du i weini alcohol.

12.3 **Trafodwyd y trefniadau** ar gyfer torri gwair ym Maesydderwen. Mae rhai ardaloedd yn cael eu torri gan Gyngor Sir Ceredigion, eraill gan Barcud ac eraill gan y Cyngor Cymuned. Roedd amlder y toriadau a wnaed gan GSC yn ystod y tymor yn gyfyngedig. Cytunwyd i ofyn i Dilwyn Benjamin a allai dorri'r glaswellt o flaen 1-5 Maesydderwn (x2)

Daeth y cyfarfod i ben am 9.10pm.

Dyddiad y Cyfarfod/ydd nesaf: Nos Iau 15fed o Fehefin 2023 at 7pm.

Arwyddwyd/Dyddiad -----